

Ffurflen Ymgynghori

Nodyn Cyngor Technegol 20 Drafft Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar Nodyn Cyngor Technegol 20 Drafft Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (TAN 20) sy'n rhoi canllawiau ar sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol fynd ati i roi sylw i'r Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Anfonwch eich sylwadau erbyn Mehefin y 13eg 2011.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i: planconsultations-c@wales.gsi.gov.uk

Diogelu data

Bydd staff Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n delio â materion yr ymgynghoriad hwn yn gweld unrhyw ymateb rydych chi'n ei anfon atom. Mae'n bosib y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweld eich ymateb er mwyn eu cynorthwyo i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosib y byddwn ninnau hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r corff a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn dangos bod yr ymgynghoriad wedi ei gynnal yn briodol. Os nad ydych chi eisiau i'ch enw a'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi ticiwch y blwch isod a byddwn yn cuddio'ch manylion.

Efallai y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau sydd wedi eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid ydym yn credu y byddai hynny'n digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn rhoi hawl i'r cyhoedd ofyn am weld yr wybodaeth sy'n cael ei chadw gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn ein galluogi ni i beidio â rhyddhau gwybodaeth dan rhai amgylchiadau. Pe bai rhywun yn gofyn am weld gwybodaeth nad ydym ni wedi ei rhyddhau, yn arbennig pan nad yw'r wybodaeth yn nodi manylion personol, byddai'n rhaid i ni benderfynu a ddylid ei rhyddhau ai peidio. Fodd bynnag, efallai y bydd rhesymau pwysig weithiau dros ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi nodi nad yw eisiau cyhoeddi'r manylion. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn hwnnw a gofyn am ei farn cyn gwneud y penderfyniad terfynol ar ddatgelu'r

wybodaeth.

Nodyn Cyngor Technegol 20 Drafft Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

21 Mawrth 2011 - 13 Mehefin 2011

Enw	Grwp Cymunedau Cymraeg Cynaliadwy	
Corff	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	
Cyfeiriad	Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Mor, Aberystwyth, SY23 2AZ	
Cyfeiriad e-bost	swyddfa@cymdeithas.org	
Math (<i>dewiswch un o'r canlynol</i>)	Busnesau	
	Awdurdod Cynllunio Lleol	
	Asiantaeth i'r Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	
	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	
	Sector Gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cwmnïau cydweithredol, mentrau, cyrff crefyddol, dielw)	x
	Arall (grwpiau eraill nad ydynt wedi'u rhestru uchod)	

<input type="checkbox"/>	A ddylid cymryd anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg i ystyriaeth wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol?	Ydw	Nac ydw
		x	

A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol?

Mae'n greiddiol i ddyfodol y Gymraeg ei bod yn rhan annatod o'r drefn gynllunio. Ni fydd dyfodol i'r iaith Gymraeg yn ei chadarnleoedd, nac yn yr ardaloedd hynny lle mae twf presennol, nac yn yr ardaloedd hynny lle mae potensial ar gyfer twf fel arall. Rhaid i ystyriaethau iethyddol fod wedi eu gwreiddio yn anghenion gwahanol gymunedau, a bod yn rhan o gynlluniau ehangach i sicrhau dyfodol y Gymraeg, heb fod un yn tanseilio'r llall.

Rhaid i ddatblygiadau cynllunio fod yn seiliedig ar ymchwil trylwyr i'r angen lleol, ac i ba raddau y gellid diwallu'r angen hwnnw drwy'r stoc dai bresennol. Mae seilio datblygiadau cynllunio ar y rhagdyb bod yn rhaid cynllunio ar gyfer y nifer uchel o fewnfudwyr yn siwr o wanhau'r Gymraeg yn ei chadarnleoedd os na sicheir bod cynlluniau cryfion mewn lle yn y Cynlluniau Datblygu Lleol i'w diogelu.

<input type="checkbox"/>	Ydych chi'n cytuno y dylai Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fod yn rhan o'r prosesau Arfarnu Cynaliadwyedd a'r broses o Asesu Safleoedd y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn eu gwneud wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol?	Ydw	Nac ydw
		x	

A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol?

Mae cynaliadwyedd y Gymraeg yn rhan greiddiol o gynaliadwyedd cyffredinol y mae'n rhaid ei sicrhau bellach er mwyn cynllunio ar gyfer dyfodol cymunedau Cymru. Yn yr

un modd na all cymunedau fod yn gynaliadwy os na chynllunir ar gyfer yr elfennau amgylcheddol, ni all cymuned fod yn gynaliadwy os na chynllunir ar gyfer dyfodol yr iaith o'i mewn. Os yw awdurdodau lleol yn methu a sicrhau cynaladwyedd ieithyddol, yna mae'n methu yn ei nod canmoliadwy i sicrhau cynaliadwyedd yn gyffredinol. Wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol dylid sicrhau bod dadansoddiad trylwyr ac annibynnol o ardrawiad ieithyddol, gan ddilyn methodoleg gydnabyddedig sydd yn cynnwys cyswllt cryf gyda aelodau'r gymuned dan sylw.

<input type="checkbox"/>	A ddylid rhoi mwy o arweiniad ar ymgorffori Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd?	Ydw	Nac ydw
		x	

A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol?

Dylai Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fod yn rhan greiddiol o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, fel y dylai fod yn rhan greiddiol o'r broses gynllunio drwyddi draw, ac arbenigwyr annibynnol yn unig ddylai wneud hyn. Fel y nodwyd eisoes, ni all cymuned fod yn gynaliadwy os nad yw iaith ei thrigolion yn gynaliadwy.

<input type="checkbox"/>	Ydych chi'n cytuno y dylid ystyried yr effaith bosibl ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg pan gaiff safleoedd datblygu amgenach eu clustnodi'n rhai y gellid eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol?	Ydw	Nac ydw
		x	

A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol?

Dylid gwneud Asesiad o Ardrawiad Ieithyddol ar unrhyw ddatblygiad sydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol neu sydd yn debygol o gael eu hychwanegu ato.

<input type="checkbox"/>	Ydych chi'n cytuno y dylai pob Cynllun Datblygu Lleol gynnwys datganiad yn disgrifio sut mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg?	Ydw	Nac ydw
		x	

A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol?

Dylid wrth gwrs, er ei bod yn bosib y bydd hyn yn amrywio yn ofodol ar draws Cymru. Rhaid gofalu nad yw hyn yn cael ei wneud fel ychwanegiad 'munud olaf' i unrhyw broses gynllunio. Gwell fyddai sicrhau bod y Gymraeg yn rhan gwbl greiddiol a naturiol o'r broses gynllunio yn ei chyfanrwydd.

--

<input type="checkbox"/>	A ddylai awdurdodau cynllunio lleol fonitro effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg? Allwch chi awgrymu dangosyddion priodol?	Ydw	Nac ydw
		x	

A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol?

Yn yr un modd nad oes gan awdurdodau lleol yr arbenigedd priodol i fonitro effaith datblygiadau ar risg llifogydd, er engrhaifft, nid oes oes ganddynt chwaith yr arbenigedd angenrheidiol i fonitrol effaith datblygiadau ar y Gymraeg. Ymddiriedir y gwaith arbeniol amgylcheddol i gyrff megis Asiantaeth yr Amgylchedd, ac yn yr un modd dylid ymddiried mewn arbenigwyr megis y Mentrau Iaith, Bwrdd yr Iaith, cynllunwyr ieithyddol proffesiynol, ond yn fwy na dim, dylid holi barn y bobl sydd yn byw yn y cymunedau a rhoi llwyfan i'w llais nhw. Bydd y cyfuniad o farn yma yn rhoi gwell dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg yn y ardal, a'u barn nhw am sut y bydd unrhyw

ddatblygiad yn effeithio ar y Gymraeg. Yn ogystal, dylai Llywodraeth y Cynulliad, mewn cydweithrediad gyda'r cyrff a nodwyd uchod, anelu at ddatblygu un fethodoleg safonol y dylid wedyn ei defnyddio ym mhob achos i sicrhau tegwch ac i osgoi gwahaniaethau mewn dulliau casglu a dadansoddi data o le i le. Mae hyn oll yn rhagdybio na wneir unrhyw ymchwil gan yr awdurdodau lleol i mewn o anghenion tai yn lleol. Dylai hyn fod yn greiddiol i waith unrhyw awdurdod lleol, a dylai fod yn sail i bob penderfyniad cynllunio a wneir ganddynt. Bydd hyn yn rhwym o gynyddu gwybodaeth yr awdurdod lleol o ystyriaethau ieithyddol, ac yn arwain at ddealltwriaeth well o effaith unrhyw ddatblygiad. Er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau, ni ddylid caniatáu i ddatblygwyr gynnal yr asesiadau ardrawiad ieithyddol, fel sydd yn digwydd ar hyn o bryd. Arbenigwyr annibynnol yn unig a ddylai gael caniatad i fesur ardrawiad ar y Gymraeg, a hynny o dan gyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol.

O ran dangosyddion, dylid defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys dadansoddiad gofodol o niferoedd siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys oedran, cyflogaeth, math o ddeiliadaeth cartref presennol e.e.

	<input type="checkbox"/> Ydych chi'n cytuno gyda'r mesurau lliniaru sydd wedi'u henwi? Allwch chi awgrymu eraill?	Ydw	Nac ydw
		x	

A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol?

Mae'r holl fesurau a restrir yn synhwyrol a chytunwn a nhw. Dylid ychwanegu 'sicrhau mynediad at dai rhent i bobl leol drwy ddefnyddio'r system bwyntiau.' Yn ogystal, dylid defnyddio'r adnoddau sydd ar gael mewn ardal e.e. ysgolion i'r graddau sy'n bosib.

Fodd bynnag, mae perygl bod y mesurau lliniaru yma yn tanseilio nod y nodyn technegol oherwydd mae'r angen am fesurau lliniaru yn rhagdybio bod datblygiad wedi cael ei ganiatau er gwaethaf bod ardrawiadau niweidiol wedi eu cydnabod ar y Gymraeg. Mae hyn yn awgrymu na fydd y Gymraeg yn ystyriaeth ddigon creiddiol i'r system gynllunio i allu gwrthod datblygiad ar sail niwed posib iddi. Dylai'r Gymraeg fod yn elfen yr un mor greiddiol i'r system gynllunio ag ystyriaeth amgylcheddol, y gellid eu defnyddio i wrthod datblygiadau e.e. oherwydd eu bod yn creu problemau llifogydd.

		Ydw	Nac ydw
<input type="checkbox"/>	A ddylid defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i ariannu seilwaith iaith Gymraeg?		
		x	

A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol?

Dylid. Mae allfudiad o Gymry Cymraeg brodorol (yn ogystal a mewnfudiad o'r tu allan) yn fygythiad mawr i gynladwyedd cymunedau. Dylid defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i hybu mentergarwch gan bobl ifanc lleol ac i ganiatau datblygiadau cymunedol a fydd o fudd economaidd i'r ardal, gan alluogi i elw lleol aros yn y gymuned.

<input type="checkbox"/>	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.
--------------------------	--

Croesawn y cam bychan hwn tuag at gryfhau lle'r Gymraeg yn y system gynllunio. Fodd bynnag, credwn bod angen mynd ymhellach na hyn er mwyn sicrhau bod TAN20 yn llwyddo yn ei amcanion. O ran rhoi arweiniad i awdurdodau lleol nid yw'r drafft yn mynd i'r afael a'r broblem o amwysedd a diffyg canllaw safonol ar gyfer awdurdodau lleol ar sut i fynd ati i gynllunio ar gyfer, a mesur ardrowiad datblygiadau ar y Gymraeg. Un o'r prif nodweddion sydd yn rhaid ei gynnwys mewn unrhyw ganllaw i awdurdodau lleol yw'r rheidrwydd arnynt i fod yn cynnal ymchwil barhaus i anghenion tai mewn cymunedau, a bod rhaid i gynllunio ddigwydd ar sail hynny, gan roi caniatad i ddatblygiadau newydd mewn achosion lle na ellir diwallu'r anghenion hynny gan y stoc bresennol.

Rhaid i unrhyw bolisi sydd yn mynd i'r afael ag ystyried yr iaith yng nghyd-destun cynllunio fod yn ddigon eang ac uchelgeisiol i fynd i'r afael a'r pwnc mewn cymunedau lle mae cryfder y Gymraeg yn amrywio. Mae angen canllawiau penodol o fewn y polisi sydd yn berthnasol i gynllunio mewn cadarnleoedd traddodiadol ac mewn cymunedau lle mae'r iaith yn tyfu ar hyn o bryd, yn ogystal a chymunedau a chanddynt potensial i fod yn gadarnleoedd yn y dyfodol. Rhaid diogelu'r presennol a'r potensial ar gyfer twf y dyfodol. Yn hyn o beth mae angen i TAN20 fod wedi ei osod yng nghyd-destun dyheadau polisiau fel Iaith Pawb a Iaith Byw : Iaith Fyw. Hyd yn hyn, nid yw polisiau cynllunio wedi adlewyrchu uchelgais polisiau addysg Gymraeg a'r cynlluniau uchod er gwaetha'r ffaith bod dyfodol y Gymraeg yn dibynnu'n sylweddol ar ffactorau cymdeithasol ac economaidd.

Yn anffodus, bu trafod cynllunio ar gyfer diogelu cymunedau a ystyrir yn gadarnleoedd traddodiadol yn wyneb y mewnlifiad yn dabw ers blynyddoedd. Mae cymal isod yn helpu'r sefyllfa honno. Dyma gymal sydd yn taseilio unrhyw unigolyn neu gorff sydd yn debygol o ddadlau dros ystyried y Gymraeg ym maes cynllunio neu sydd yn gwrthwynebu datblygiad oherwydd ei fod yn amlwg yn niweidiol i'r Gymraeg.

“3.6.4. Ni ddylai polisiau CDLI sy'n dwyn anghenion a buddiannau'r Gymraeg i ystyriaeth geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Ni ddylai polisiau cynllunio geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol.”

Does dim dwywaith fod canran y siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau traddodiadol Cymraeg wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth i fuddiannau'r farchnad rydd gael eu blaenoriaethu dros anghenion cymunedau rydym yn rhagweld y bydd canlyniadau Cyfrifiad eleni yn dangos parhad yn y dirywiad hwn. Mae'n hollbwysig felly fod gweithredu ar frys ac o ddifrif er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon gan ddechrau drwy sefydlu'r egwyddor fod gan

bob cymuned yng Nghymru y potensial i fod yn gymuned naturiol Gymraeg. Mae sefyllfa economaidd-gymdeithasol tymor hir cymunedau Cymraeg (allfudo economaidd o Gymry Cymraeg a mewnfudo gan y di-Gymraeg sydd yn gwthio tai y tu hwnt i afael pob leol) a'r potensial mawr mewn cymunedau eraill yn gosod rheidrwydd ar Lywodraeth y Cynulliad roi arweiniad i awdurdodau lleol i ddefnyddio'r system gynllunio er mwyn gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg. Nid yw'r ddogfen fel y mae yn cynnig arweiniad digon penodol yn hyn o beth.

2.1.1: Er bod rhai oedolion sydd yn symud i gymunedau a ystyrir yn gadarnleoedd, lleiafrif bychan ydynt, ac mae lle mawr i wella ar hyn.

3.1.2: Croesawir hyn. Rhaid sicrhau bod yr asesiadau yn digwydd, eu bod yn cael eu gwneud gan arbenigwr annibynnol dan gyfarwyddyd yr awdurdod lleol yn unig (nid gan y datblygwyr) a bod arbenigwyr yn y maes yn cytuno ar y fethodoleg.

3.3.1: Cytuno gyda hyn. Dylid ymestyn rhychwant y dystiolaeth a gesglir ac a ddadansoddir o ran niferoedd a dosbarthiad siaradwyr Cymraeg ac ati. Os na wneir hyn eisoes, dylid casglu data ar fewnfudo ac allfudo, tueddiadau cyfogaeth, deiliadaeth tai, a barn y cymunedau eu hunain.


3.5.1: Gweler yr ateb i Gwestiwn 7.

3.6.1: Ni ddylid cyfyngu perthnasedd ystyriaethau ieithyddol ym maes cynllunio i ardaloedd lle mae'r iaith yn gryf, ond dylid datblygu polisiau o fewn TAN20 ar gyfer cynllunio mewn cymunedau lle mae potensial iddi fod yn gryf hefyd.

3.6.2. Mae nifer o broblemau gyda hyn. Yn gyntaf, mae'r syniad o dai 'fforddiadwy' yn awgrymu bod yna dai sydd yn 'anfforddiadwy.' Fel cymdeithas, credwn mai cartref yw tŷ yn hytrach nac adnodd economaidd. Yn wyneb hyn, credwn dylai pob tŷ mewn cymuned fod yn fforddiadwy ac y dylai unrhyw ddatblygiad ddiwallu anghenion y gymuned leol ar sail ymchwil drylwyr i'r anghenion hynny. Yn ogystal, rhaid cydnabod bod angen i'r system bwyntiau fod yn gryfach o blaid rhoi blaenoriaeth i bobl leol. Mae cwestiynau i'w gofyn hefyd ynglyn â sut y penderfynir ar bris 'fforddiadwy' – rhaid i hyn hefyd fod yn seiliedig ar ymchwil drylwyr iawn i'r lefelau cyfogaeth. Os na wneir yr uchod, bydd datblygiadau yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg, hyd yn oed os os yw pob tŷ yn cael ei nodi fel tŷ 'fforddiadwy' wrth i bobl o du allan i'r ardal gael blaenoriaeth dros bobl leol (er bod hyn yn ddilys mewn rhai achosion penodol iawn).

3.6.4 a 4.1.1: Yn gyffredinol, fel y nodwyd uchod, mae'r pwyntiau yma yn tansellio holl ddiben y nodyn technegol. Credwn bod angen cynnal Asesiad o Effaith (negyddol neu gadarnhaol) ar yr iaith Gymraeg wrth ystyried ceisiadau ar gyfer caniatad cynllunio.

5.1.1. a 5.1.2. Dylid rhoi enw Cymraeg ar bob datblygiad **newydd**. Dylid hefyd atal prynwyr tai rhag newid enwau Cymraeg y tai hynny i rai Saesneg. Mater ymddangosiadol fach efallai, ond dyma weithgaredd sydd yn niweidio cymeriad cynhenid ardal mewn modd difrifol.



Nid wyf eisiau i'm henw a/neu fy nghyfeiriad gael ei gyhoeddi gyda'm hymateb

Sut i ymateb

Anfonwch eich sylwadau erbyn 13 Mehefin 2011, drwy un o'r ffyrdd canlynol:

Y post	E-bost
Cwblhewch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i: Nodyn Cyngor Technegol 20' Yr Isadran Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ	Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i: planconsultations-c@wales.gsi.gov.uk [Rhowch 'Nodyn Cyngor Technegol 20' yn y llinell bwnc]
Gwybodaeth ychwanegol	
Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i: planconsultations-c@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch: 029 2082 6166	